

Ymateb i Ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Llywodraeth Cymru – Medi 2022

Er mwyn creu newid cadarnhaol i'r amgylchedd bwyd mae angen sicrhau consensws ar weledigaeth gyffredinol ar gyfer ein system fwyd yng Nghymru a'r broses ddilynol o weithredu polisiau ar draws pob maes sy'n effeithio ar fwyd. Mae maint yr argyfwng iechyd cyhoeddus yn ddigynsail, gyda phobl yng Nghymru yn wynebu risg uwch o farw mewn tloidi nag mewn unrhyw un o wledydd eraill y DU (Marie Curie); mae bron 60% o oedolion yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew (Iechyd Cyhoeddus Cymru); ac mae cost gymdeithasol lawn gordewdra i Gymru tua £3 biliwn y flwyddyn (Frontier Economics). Ar lefel y DU, mae adroddiad Broken Plate y Sefydliad Bwyd (2022) yn disgrifio bod yn agos at 10,000 o lawdriniaethau trychu sy'n gysylltiedig â diabetes yn cael eu cynnal ar gyfartaledd y flwyddyn, cynnydd o 23% mewn pum mlynedd. Gan edrych ar nifer yr achosion o ddiabetes math 2 yng Nghymru a Lloegr, mae nifer yr achosion o ddiabetes math 2 yn uwch ar gyfartaledd ymhlith grwpiau incwm is a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. O blith yr holl bobl â diabetes math 2, mae 24% yn y pumed tlotaf o'r boblogaeth o gymharu â 15% yn y pumed cyfoethocaf.

Mae'r argymhellion yn yr ymgynghoriad hwn yn darparu rhai o'r dulliau i symud tuag at amgylcheddau bwyd iachach ond, heb ystyried y system gyfan, gallai rhai o'r argymhellion gael effaith negyddol ar agweddau eraill y system fwyd, er enghraifft economïau lleol. Er enghraifft, gallai busnesau bach gael anhawster i gynhyrchu labeli calorïau a gallai gofyniad iddynt wneud hynny fod yn niweidiol i fwydlenni tymhorol, lleol, y gallu i ymateb i gynhwysion sydd ar gael yn lleol neu gallai arwain at wastraff bwyd ychwanegol. Mae'r sector lletygarwch, ac yn benodol busnesau annibynnol, yn wynebu pwysau aruthrol o ganlyniad i Covid, problemau o ran y gweithlu a chostau ynni a bwyd. Mae perygl hefyd bod canolbwyntio ar gynnwys Cilocalorïau prydau yn symud y sylw oddi wrth elfennau eraill y pryd, er enghraifft tarddiad cynhwysion, mwynhad cymdeithasol a dathliadau.

Mae angen ystyried yr agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar y cynnig hwn ochr yn ochr â'r effeithiau iechyd ac mae angen ystyried yn ofalus yr effeithiau ar aelwydydd incwm isel. Mae papur diweddar gan Isacacs et al (2022)¹ yn trafod sut y mae amgylcheddau bwyd nad ydynt yn iach yn gwthio teuluoedd incwm isel tuag at gynhyrchion nad ydynt yn iach ochr yn ochr ag anghenion lluosog eraill teuluoedd, er enghraifft llesiant cymdeithasol. Felly, bydd polisiau ac ymyriadau sydd ond yn canolbwyntio ar wella iechyd maethol yn annigonol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau deietegol os cânt eu gweithredu ar eu pen eu hunain oherwydd, yn absenoldeb adnoddau eraill, bydd pobl yn parhau i droi at amgylcheddau bwyd afiach i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol.

Mae'r materion yn hyn dangos pam mae Cynghair Polisi Bwyd Cymru yn credu y dylai Llywodraeth Cymru bennu Comisiwn System Fwyd traws sector, annibynnol. Dylai'r comisiwn hwn fod yn gyfrifol am ddatblygu map trywydd i gyflawni 'System Fwyd sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol', sy'n cyd-fynd ag egwyddorion amaeth-ecoleg. Dylai'r map trywydd [ystyried chwe blaenoriaeth sy'n ystyried y System Fwyd yn ei chyfanrwydd](#). Mae'r Bil aelod preifat a gyflwynwyd i'r Senedd y llynedd ac a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Rhagfyr yn ceisio 'sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru er mwyn atgyfnerthu diogelwch bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a gwella dewis i ddefnyddwyr'. Mae'r Bil drafft yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer Comisiwn Bwyd a nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd sy'n cydnabod natur systemig y system fwyd, a gallai fod yn ddull allweddol o ddatblygu prosesau llunio polisiau mwy cydlynol.

Heb y dull hwn sy'n seiliedig ar systemau, gallai'r cynigion yn yr ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach gael llai o effaith ar y gost gymdeithasol o £3 biliwn sy'n deillio o ordewdra. Er enghraifft, nid yw'r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu ar hyn o bryd (h.y. Strategaeth Bwyd a Diod Cymru) a'r ffordd yr ydym yn ei gynhyrchu a'i gyflenwi yng Nghymru yn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw na chenedlaethau'r dyfodol. Mae llawer o'r gwaith cynhyrchu yng Nghymru yn dibynnu ar gynhyrchion gwerth ychwanegol, echdynnol ac afiach yn aml (diodydd meddal ac alcoholig, melysion, cynhyrchion becws) ac nid yw'n cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth yn ôl y Canllaw Bwyta'n Dda. Dim ond chwarter un dogn o lysiau rydym yn ei gynhyrchu, a hynny ar lai na 0.2% o dir. Oni ystyrir pob rhan o'r system gyda'i gilydd, dim ond effaith gyfyngedig a gaiff yr argymhellion a wneir yma. Ymhlith yr ystyriaethau eraill mae'r rhai sy'n gysylltiedig â nawdd cymdeithasol, addysg, cynllunio, adnoddau cymunedol bwyd, seilwaith bwyd lleol, caffael, gwaith teg, cymorth busnes - mae'r rhestr yn un hir.

Yn benodol, nid yw'r ymgynghoriad yn manteisio ar y cyfle i gyfeirio at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth hirdymor i hyrwyddo newid deietegol tuag at y 'Canllaw Bwyta'n Dda', fel rhan o'i Chynllun Sero Net (a fyddai'n golygu cynnydd sylweddol mewn ffrwythau a llysiau, gostyngiad mewn cigoedd coch a chigoedd wedi'u prosesu a chynhyrchion llaeth a gostyngiad mewn bwydydd â lefelau uchel o fraster a siwgr. Mae'r cynllun sero net yn datgan: "Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddatblygu strategaeth hirdymor newydd i hyrwyddo newid deietegol tuag at 'Ganllaw Bwyta'n Dda' Llywodraeth y DU, drwy annog pobl yng Nghymru i fwyta bwydydd iachach, mwy cynaliadwy, a bwyta a gwastraffu llai." Gallai'r pwyslais presennol ar gyfyngu bwydydd nad ydynt yn iach yn yr ymgynghoriad hwn fethu cyfle i hyrwyddo opsiynau iachach a mwy cynaliadwy. Enghreifftiau da yma fyddai drwy fentrau fel Pys Plis, Nerth Llysiau a chynyddu potensial y Cynllun Cychwyn Iach.

Cyfle pellach ar gyfer integreiddio fyddai gyda'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael lle y byddai cyfleoedd i drosoli pŵer prynu sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n darparu bwyd arlwyo a manwerthu i ysgolion, ysbytai, cyfleusterau sy'n eiddo i'r cyngor, gweithleoedd ac ati - tuag at ddyfarnu contractau i gyflenwyr sy'n darparu cynnyrch iach a chynaliadwy.

Sut y mae'r cynigion hyn yn cysylltu â nodau ehangach ymrwymadau eraill y Rhaglen Lywodraethu, er enghraifft cyflwyno Cinio Ysgol am Ddim i Bawb, y strategaeth bwyd cymunedol, cynyddu'r swm o gynnyrch a gynhyrchir yn lleol a'r cynllun Ffermio Cynaliadwy? A oes ffyrdd mwy arloesol o newid yr amgylchedd bwyd drwy weithio gyda chymunedau i ddeall eu hanghenion a mynd i'r afael â hwy? Drwy ddatblygu rhwydwaith o bartneriaethau bwyd? Drwy ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd mewn ysgolion a chymunedau?

Mae enghreifftiau o rai o'r dulliau gweithredu hyn ar gael ar wefannau aelodau eraill:

[Synnwyr Bwyd Cymru](#) – yn benodol [Adroddiad Effaith 2021/22](#)

[Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol](#)

[Cynghrair Gweithwyr y Tir](#)

[Lleoedd Bwyd Cynaliadwy](#)

Adroddiad Broken Plate - https://foodfoundation.org.uk/sites/default/files/2022-07/FF_Broken_Plate_Report%202022_DIGITAL_3.pdf

Ein Blaenoriaethau ar gyfer System Fwyd sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol https://www.foodsensewales.org.uk/app/uploads/sites/2/2021/10/FPAC_Cymraeg2021.pdf

[Mind the gap - The rise in inequalities in Wales.pdf \(nhsconfed.org\)](#)

ⁱ [O healthy food environments to healthy wellbeing environments: Policy insights from a focused ethnography with low-income parents' in England - ScienceDirect](#)